Safon ansawdd NICE ar gyfer therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty

Dyddiad cyhoeddi: 14 Awst 2014

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae safonau ansawdd NICE yn helpu i wella meysydd iechyd neu ofal cymdeithasol allweddol er mwyn cynnig y gofal gorau posib i bobl.

Mae'r wybodaeth hon yn egluro'r gofal a'r cymorth a ddisgrifir yn safon ansawdd 66NICE ar therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty.

Therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty

Mae'r safon ansawdd ar gyfer therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty yn cynnwys 4 datganiad sy'n disgrifio gofal o ansawdd uchel i oedolion sy'n cael therapi hylif mewnwythiennol. Mae'r datganiadau hyn yn nodi safon y gofal y dylech ei dderbyn.

1. Gofelir am oedolion sy'n cael therapi hylif mewnwythiennol yn yr ysbyty ac mae ganddynt unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau eu bod yn cael therapi hylif mewnwythiennol diogel ac effeithiol.

2. Gofelir am oedolion sy'n cael therapi hylif mewnwythiennol yn yr ysbyty gan dîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i sicrhau eu bod yn cael therapi hylif mewnwythiennol diogel ac effeithiol.

3. Bydd oedolion sy'n cael therapi hylif mewnwythiennol yn yr ysbyty yn gwybod bod ganddynt gynllun rheoli hylif mewnwythiennol sydd wedi cael ei ysgrifennu a'i adolygu gan arbenigwr. Mae'r cynllun yn cynnwys manylion presgripsiwn hylif mewnwythiennol y claf (yr hyn sydd ei angen dros y 24 awr nesaf a sut y dylid ei roi), yn ogystal â manylion o asesiadau a gwiriadau therapi hylif mewnwythiennol y dylid eu cynnal dros y 24 nesaf.

4. Gofelir am oedolion sy'n cael therapi hylif mewnwythiennol mewn ysbyty sydd â systemau ar waith er mwyn gallu cofnodi ac ymdrin â phroblemau therapi hylif mewnwythiennol (er enghraifft, cleifion nad ydynt yn cael digon o hylif mewnwythiennol sydd o ganlyniad wedi'u dadhydradu'n ddifrifol) yn gywir.

Eich gofal

Dylai eich tîm iechyd a gofal cymdeithasol egluro unrhyw driniaeth, gofal neu gymorth y dylid ei gynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Mae NICE hefyd wedi paratoi canllaw (cyngor) a safon ansawdd ar wella gofal i oedolion sy'n defnyddio'r GIG, y gallech fod am eu darllen.

Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhagor o wybodaeth ar therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty

Mae NICE hefyd wedi llunio canllaw ar therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty. Defnyddiwyd y canllaw i ddatblygu'r safon ansawdd hon.

Gallwch hefyd fynd i NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nifer o sefydliadau sy'n rhannu ymrwymiad NICE i wella safon yn y maes hwn yn cefnogi'r safon ansawdd hon yn ffurfiol. Efallai y gallant hefyd ddarparu cyngor a chymorth. I gael rhestr o'r sefydliadau hyn gweler y safon ansawdd ar gyfer therapi hylif mewnwythiennol ar gyfer oedolion yn yr ysbyty ar wefan NICE.

ISBN: 978-1-4731-0771-7